*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Gweithdrefn Tynnu Cymwysterau yn Ôl

## Cwmpas a Diben y Weithdrefn

Ategir y weithdrefn hon gan weledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol, a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol o Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd hyn yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n cael mynediad at Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** wrth iddynt ddysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i feithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

Lluniwyd y weithdrefn hon i ddiogelu buddiannau dysgwyr pe byddai'r Coleg yn tynnu cymhwyster yn ôl o'i ganolfan, naill ai'n wirfoddol neu ar gyfarwyddyd y sefydliad dyfarnu. Bydd y Coleg yn dilyn unrhyw weithdrefn a amlinellwyd gan y sefydliad dyfarnu bob amser.

## Rhesymau dros dynnu cymwysterau yn ôl yn wirfoddol

O bryd i'w gilydd, efallai bydd y Coleg yn penderfynu tynnu cymhwyster yn ôl o'i ganolfan. Fel arfer, byddai hyn am un o'r rhesymau canlynol:

- Diffyg galw am y cymhwyster o fewn y diwydiant
- Diffyg cofrestriadau dysgwyr
- Newid yn y sgiliau sydd eu hangen ar y diwydiant gan arwain at gymhwyster anaddas i'r diben
- Sicrwydd Ansawdd Mewnol
- Symud safleoedd neu faterion adnoddau eraill

## Gweithdrefn

- Bydd y penderfyniad i dynnu cymhwyster yn ôl yn cael ei wneud gan yr Uwch Dîm. Gwneir y penderfyniad ar ôl ymgynghori â'r Pennaeth Adran perthnasol a'r staff perthnasol.

- Bydd y Coleg yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau dysgwyr mewn perthynas â chymhwyster y mae'n ei dynnu'n ôl. Bydd modd i ddysgwyr presennol gwblhau cymhwyster y maent wedi cofrestru ar ei gyfer, neu rhoddir cyfnod rhesymol o rybudd iddynt i gwblhau'r cymhwyster. Caiff unrhyw drefniadau trosglwyddo, ynghyd â rhestr o ddarparwyr addysg eraill,

eu cyhoeddi a'u darparu i ddysgwyr, canolfannau a chyflogwyr, o gymhwyster sydd i'w dynnu'n ôl

- Bydd y Coleg yn sicrhau bod y gweithdrefnau a ymlynir wrthynt yn unol â'r Sefydliad Dyfarnu perthnasol ac yn cydymffurfio â'r Amodau Cydnabod Cyffredinol.

## Tynnu Cymwysterau yn Ôl gan Sefydliad Dyfarnu

- Os bydd Sefydliad Dyfarnu yn tynnu cymhwyster yn ôl o'r Coleg, bydd yn:
  - Rhoi arweiniad effeithiol i'r Coleg.
  - Rhannu unrhyw wybodaeth i'r Coleg, sy'n rhesymol ofynnol gan y Coleg i Sefydliad Dyfarnu ei darparu, at ddibenion y ddarpariaeth honno.
- Bydd y Coleg yn dilyn yr un weithdrefn a amlinellir uchod er mwyn diogelu buddiannau ei ddysgwyr.

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo:** | **Medi 2024** | **Rheolwr sy'n Gyfrifol:** | **Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu** |
| **Cymeradwywyd gan:** | **Bwrdd Safonau Ansawdd** | **Arweinydd Gweithredol:** | |
| **Dyddiad adolygu:** | **Medi 2026** | **Hygyrch i Fyfyrwyr:** | **Ydy** |